



Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd (CDLI)

Proses a Methodoleg Safleoedd Posib

Ebrill 2025


Cynnwys

1.0	Cyflwyniad.....	3
	Diagram 1: Crynodeb o Broses y Safle Posib.....	4
2.0	Egwyddorion Allweddol - Y Galw am Safleoedd Posib	5
2.1	Cynigwyr Safleoedd a Defnydd Tir	5
2.2	Cynaliadwyedd, Cyflawniad a Hyfywedd Ariannol.....	5
2.3	Polisi Cynllunio Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol presennol	6
2.4	Dynodiadau Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Presennol	6
2.5	Arfarniad Cynaliadwyedd (SA) / Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)	7
2.6	Cyflwyno Safle Posib - Ffurflen Safle Posib.....	7
3.0	Cofrestr Safleoedd Posib (CSP)	8
4.0	Proses Asesu Safleoedd Posib.....	9
4.1	Hidlo Safleoedd Cychwynnol.....	9
4.2	Aseiad Safle Manwl	10
4.3	Arfarniad Cynaliadwyedd	11
4.4	Hyfywedd Safle	12
5.0	Cam Dewis Safle Terfynol, Ymgynghoriad CDLL wedi ei Adneuo a Safleoedd Amgen . Gwall!	
	Dalennod heb ei diffinio.	
	Atodiad 1 – Ffurflen Swyddog - Asesu Safle Posib (Enghreifftiol yn Unig).....	14
	Atodiad 2 - Nodiadau Cyfarwyddyd Asesu (enghreifftiol yn unig)	19

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Yn dilyn cyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni, y Galw am Safleoedd Posib yw'r cam ffurfiol cyntaf yn y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd (CDLI). Mae'r broses yn galluogi pob parti sydd â diddordeb i gyflwyno safleoedd posibl i'w cynnwys yn y Cynllun i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI). Bydd yr holl safleoedd a gyflwynir yn cael eu gosod ar Gofrestr Safleoedd Posib (CSP). Wedyn, mater i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fydd asesu pob safle a phenderfynu a ydynt yn addas ai peidio i'w cynnwys yn y CDLI.
- 1.2 Diben y ddogfen hon yw pennu'r broses a'r fethodoleg a ddefnyddir i asesu addasrwydd y safleoedd datblygu posibl (a adwaenir fel Safleoedd Posib) i'w cynnwys yn y CDLI. Mae'r fethodoleg yn adlewyrchu'r canllawiau cynllunio cenedlaethol sydd yn y Polisi Cynllunio Cenedlaethol ([Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 12 \(2024\)](#) a [Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 \(2021\)](#)) ynghyd â gofynion a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar baratoi CDLI fel a nodir yn y [Llawlyfr Cynlluniau Datblygu \(Argraffiad 3 Mawrth 2020\)](#).
- 1.3 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi bod cyflawniad y safleoedd yn ystyriaeth bwysig wrth asesu addasrwydd safleoedd ac mae'n hanfodol wrth nodi dynodiadau datblygu o fewn y CDLI. Felly, bydd y broses asesu a nodir yn y ddogfen hon yn cael ei chymhwyso i'r holl safleoedd a gyflwynir i'w hystyried yn y cam Galw am Safleoedd Posib, gan gynnwys Safleoedd Posib a gyflwynir ar safleoedd a ddynodwyd sydd heb eu datblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a fabwysiadwyd (2011-2026), ac unrhyw safleoedd eraill yr ystyrir eu bod yn briodol ac sydd wedi eu nodi drwy'r broses CDLI.
- 1.4 Bydd arfarniad y safleoedd yn defnyddio ystod o wybodaeth a gedwir gan y Cyngor, tystiolaeth ategol a gyflwynir gan gynigwyr safleoedd, ac fe ymgynghorir gyda chyrrff ymgynghori penodol er mwyn gallu rhoi ystyriaeth lawn i'r safleoedd.
- 1.5 Fel rhan o'r broses galw am safleoedd bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gofyn am dystiolaeth ategol gan rai sy'n cyflwyno safle. Gall methu â chyflwyno gwybodaeth ddigon manwl yn unol â chais yr Awdurdod Cynllunio Lleol arwain at beidio â bwrw ymlaen gyda safle.
- 1.6 **Mae'n bwysig datgan nad yw'r broses safle posib yn cynrychioli ymrwymiad ar ran y Cyngor i ddwyn safleoedd ymlaen i Gynllun Datblygu Lleol Gwynedd.** Hefyd, gan fod y CDLI yn gynllun datblygu newydd, nid yw tir sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun datblygu mabwysiedig cyfredol (y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd) yn cael ei gynnwys yn awtomatig yn y CDLI newydd.
- 1.7 Mae siart llif yn crynhoi'r broses safleoedd posib i'w gweld ar y dudalen nesaf.

Diagram 1: Crynodeb o Broses y Safle Posib



2.0 Egwyddorion Allweddol - Y Galw am Safleoedd Posib

2.1 Cynigwyr Safleoedd a Defnydd Tir

2.1.1 Mae'r Galw am Safleoedd Posib yn caniatáu i bob parti (tirfeddianwyr, cynghorau cymuned, sefydliadau lleol ac ati) gyflwyno unrhyw safleoedd posibl ar gyfer defnydd penodol i'w hystyried i'w cynnwys yn y CDLL. Bydd y rhain wedyn yn cael eu hasesu a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a yw pob safle yn addas fel dynodiad yn y CDLL i'r defnydd arfaethedig ai peidio.

2.1.2 Bydd y CDLL, drwy'r broses Safle Posib yn nodi tir i ddiwallu anghenion datblygu'r Sir ar gyfer gwahanol ddefnyddiau tir gan gynnwys (nodwch nad yw'r rhestr hon yn gyflawn):

- Preswyl (marchnad leol, marchnad agored neu fforddiadwy)
- Cyflogaeth
- Manwerthu
- Twristiaeth
- Isadeiledd Gwyrdd / Llecyn Agored / Hamdden
- Sipsiwn a Theithwyr
- Mwynau
- Gwastraff
- Ynni Adnewyddadwy
- Isadeiledd Trafnidiaeth

2.2 Cynaliadwyedd, Cyflawniad a Hyfywedd Ariannol

2.2.1 Bydd Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn defnyddio'r broses Safle Posib i gasglu tystiolaeth addas gan gynnwys safle sy'n dangos yn gadarn gynaliadwyedd, cyflawniad a hyfywedd ariannol safleoedd. Mae angen cyflwyno tystiolaeth gan gynnwys safle er mwyn galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i asesu'r canlynol:

- Bod y safle mewn lleoliad **cynaliadwy** ac yn rhydd o neu y gellir ei ryddhau o bob cyfyngiad.
- Bod **modd cyflawni'r** safle.
- Bod y safle yn **hyfyw**.

2.2.2 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3) yn nodi y dylai'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan gynnwys y safle i ddangos cyflawniad a hyfywedd fynd i'r afael â'r pwyntiau canlynol:

- Bod y safle mewn lleoliad cynaliadwy (yn unol â dilyniant chwilio'r safle a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12) (sydd wedi llywio methodoleg asesu safle posib yr ACLL).
- Bod y safle ar gael yn awr neu bydd ar gael ar adeg briodol o fewn cyfnod y cynllun.
- Yn gyffredinol bod y safle'n rhydd o gyfyngiadau ffisegol, megis perchnogaeth tir, isadeiledd, mynediad, cyflwr y ddaear, bioamrywiaeth, tirwedd, treftadaeth, materion perygl llifogydd a llygredd.
- Yr hanes cynllunio - a yw'r safle'n elwa o ganiatâd cynllunio sydd ar gael, neu a yw'n cael ei nodi fel dynodiad yn y CDLL a fabwysiadwyd ar hyn o bryd?
- Os yw'n briodol, dylid cael esboniad clir a chyfiawnhad o sut a phryd y gellir goresgyn unrhyw rwystrau i gyflawni.

- Bod potensial datblygu ar gyfer y defnydd arfaethedig. Mae'r safle yn gyffredinol yn ddeniadol i'r farchnad (yn y sector preifat a/neu'r sector cyhoeddus) i'w ddatblygu yn y lleoliad arfaethedig.
- Gall y safle ddarparu ar gyfer y lefelau eang o dai fforddiadwy, gofynion polisi eraill / Adran 106 a chostau isadeiledd fel y nodir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
- Os oes diffygion ariannol yn atal datblygiad rhag dod ymlaen, mae mecanweithiau cyllido, neu y gellid eu sicrhau, ar gael i wneud y safle'n hyfyw yn ariannol.

2.2.3 Er mwyn cynorthwyo cynigwyr safle i fynd i'r afael â'r pwyntiau a restrir, bydd y Ffurflen Gyflwyno Safle Posib yn cynnwys cyfres o gwestiynau mewn perthynas â'r uchod, er mwyn caniatáu ar gyfer asesu'r safle a'i gyflawniad. Bydd y meini prawf a gynhwysir yn y ffurflen gyflwyno yn cael eu dewis i alluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i nodi safleoedd yr ystyrir eu bod yn addas i'w hystyried ymhellach ac i annog cyflwyno gwybodaeth ychwanegol lle bo hynny'n briodol.

2.2.4 Bydd yr ACLL yn ei gwneud yn ofynnol i safleoedd a gyflwynir sy'n symud ymlaen i'r asesiad safle manwl gael eu cefnogi gan Asesiad Hyfywedd Ariannol (gweler adran 4.4). Gall hefyd ofyn am wybodaeth ychwanegol fel arolygon ecolegol, asesiadau canlyniadau llifogydd, astudiaethau draenio, asesiadau effaith traffig ac unrhyw dystiolaeth arall y gallai fod ei angen i ddangos bod safle yn gyflawnadwy. Mae cynigydd y safle yn gyfrifol am ymgymryd ag unrhyw waith technegol (gan gynnwys costau ariannol) sydd ei angen i gefnogi cynnwys safle posibl yn CDLI Gwynedd. Noder na ellir adennill unrhyw un o'r costau posibl gan yr ACLL. Gallai methu â darparu'r dystiolaeth ategol angenrheidiol olygu nad yw'r safle'n cael ei gynnwys yn y CDLI.

2.2.5 Er mwyn cefnogi'r gwaith o baratoi cyflwyniadau Safle Posib, mae'r ACLL wedi cynhyrchu map cyfyngiadau rhyngweithiol sydd i'w weld [yma](#). Bydd hyn yn galluogi cynigwyr safle i adnabod unrhyw gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â safleoedd yn hawdd, ac i nodi a fydd angen gwybodaeth ychwanegol fel rhan o broses asesu safle posib yr ACLL.

2.3 Polisi Cynllunio Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol presennol

2.3.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol flaenoriaethu'r defnydd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol yn y broses o ddewis safleoedd. Mae hefyd yn cynghori y dylid rheoli adeiladu tai newydd a datblygiad newydd arall (manwerthu, cyflogaeth ac ati) yng nghefn gwlad agored, i ffwrdd o aneddiadau sefydledig, yn llym. Mae'n annhebygol y bydd Safleoedd Posib a gynigir ar gyfer eu defnyddio, fel tai a chyflogaeth, mewn lleoliadau ynysig i ffwrdd o aneddiadau diffiniedig yn dderbyniol.

2.3.2 Dylai cynigwyr safle ystyried sut mae'r Safleoedd Posib a gynigir, yn cyd-fynd â'r Strategaeth CDLI ar y Cyd a fabwysiadwyd a'r hierarchaeth aneddiadau yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, wrth i'r gwaith o baratoi ar gyfer CDLI Gwynedd fynd rhagddo, rhagwelir y bydd diwygiadau i Strategaeth y CDLI a hierarchaeth aneddiad, a fydd yn cael effaith ar ddewis safleoedd. Yn hyn o beth, bydd rôl a swyddogaeth yr anheddiad, ynghyd â'i safle o fewn yr hierarchaeth aneddiadau ac agosrwydd Safleoedd Posib at ffiniau aneddiadau presennol hefyd yn rhan o'r ystyriaethau wrth bennu addasrwydd safleoedd. Wrth baratoi Strategaeth CDLI Gwynedd, bydd yr ACLL hefyd yn ystyried Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021), yn enwedig lleoliad Ardaloedd Twf Rhanbarthol.

2.4 Dynodiadau Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Presennol

- 2.4.1 Bydd angen ail-asesu dynodiadau safleoedd sydd heb eu datblygu yn y CDLI presennol a fabwysiadwyd drwy'r broses asesu Safle Posib. O ganlyniad, mae'n **rhaidd** i berchnogion / datblygwyr dynodiadau presennol safle'r CDLI gyflwyno Safle Posib i ddangos bod modd cyflawni eu safle ac egluro pam nad yw caniatâd cynllunio wedi'i sicrhau hyd yma. Yn absenoldeb y dystiolaeth ddiweddaraf bod safle dynodedig presennol ar gael ac y gellir ei gyflawni, gellir ystyried bod safleoedd o'r fath yn addas i'w hailddynodi yn y CDLI datblygol.

2.5 Arfarniad Cynaliadwyedd (SA) / Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

- 2.5.1 Mae gan yr Awdurdod Lleol ofyniad statudol i gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) o CDLI Gwynedd. Bydd hyn yn cael i ymgorffori fel rhan o Arfarniad Cynaliadwyedd (SA), a fydd hefyd yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar lechyd, Asesiad Effaith ar y Gymraeg a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Darperir rhagor o fanylion yn Adran 5 ar sut a phryd y bydd Safleoedd Posib yn cael eu hasesu fel rhan o ISA.
- 2.5.2 Bydd angen i'r Cyngor hefyd sicrhau na fydd CDLI Gwynedd yn cael unrhyw effaith sylweddol (ar ei ben ei hun ac ar y cyd) ar y Rhwydwaith Safle Cenedlaethol (Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd - HRA) wrth iddo gael ei weithredu.

2.6 Cyflwyno Safle Posib - Ffurflen Safle Posib

- 2.6.1 Bydd **yn rhaid** cyflwyno tystiolaeth i gefnogi safleoedd drwy ffurflen safonol. Mae'r Cyngor yn annog cynigwyr safle i gwblhau'r ffurflen gyflwyno Safle Posib ar-lein. Mae'r ffurflen ar-lein yn galluogi cynigwyr y safle i gynhyrchu a chyflwyno map, cael gwybodaeth am gyfyngiadau, gweld nodiadau canllaw ac uwchlwytho dogfennau ategol.
- 2.6.2 Mae Ffurflen Asesu Safle Posib wedi'i chynllunio i sicrhau cysondeb asesiadau rhwng gwahanol swyddogion yn nhîm y CDLI ac i hyrwyddo tryloywder. Mae'n rhaid i bob safle a gyflwynir roi sylw i bolisi rhyngwladol, cenedlaethol a lleol ac ni ystyrir safleoedd sy'n amlwg yn anymarferol i'w datblygu yn addas i'w cynnwys o bosibl yn y CDLI. Gallai enghraifft ohono fod yn ddatblygiad preswyl arfaethedig wedi'i leoli mewn lleoliad cefn gwlad agored ac nad yw'n gysylltiedig ag aneddiadau presennol neu ddatblygiad tai a gynigir ar dir sy'n destun llifogydd.

3.0 Cofrestr Safleoedd Posib (CSP)

3.1 Bydd yr holl Safleoedd Posib a gyflwynwyd ar gael i'w gweld ar dudalennau gwe'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn yr hyn a elwir yn 'Gofrestr Safleoedd Posib'.

3.2 Rhagwelir y bydd ystod o safleoedd yn cael eu cyflwyno i'w hystyried a fydd yn cynnwys:

Safleoedd Strategol	Safleoedd mawr fydd yn cyfrannu'n sylweddol at strategaeth y CDLI oherwydd eu natur, eu graddfa a'u lleoliad.
Safleoedd An-strategol	Safleoedd bach i ganolig sydd o faint digonol i ddarparu ar gyfer gofynion twf lleol.
Safleoedd Mewnlenwi / ar Hap	Safleoedd llai na fydd eu hangen o bosibl ar gyfer y broses ddynodi yn y dyfodol ond a ystyrir pan fydd y Tîm Polisi Cynllunio yn ymgymryd â gwaith ar ran y Cynghorau i ddiffinio ffiniau datblygu mewn aneddiadau perthnasol.

3.3 Bydd y Gofrestr Safleoedd Posib yn cael ei chyhoeddi fel rhan o ymgynghoriad statudol Strategaeth a Ffafir gan CDLI Gwynedd (Awst 2025). Bydd unrhyw safleoedd a nodwyd sy'n allweddol i gyflawni'r strategaeth gyffredinol (Safleoedd Strategol) yn cael eu cyhoeddi yn y Strategaeth a Ffafir ei hun. Bydd yr ACLL yn gwahodd sylwadau ar Safleoedd Strategol a'r safleoedd yn y Gofrestr Safleoedd Posib yn ystod yr Ymgynghoriad Strategaeth a Ffafir.

3.4 Bydd y Gofrestr Safleoedd Posib yn cynnwys manylion am statws pob safle yn dilyn y broses asesu ac yn caniatáu adnabod safleoedd sydd wedi'u hidlo allan o'r broses ar y dechrau a'r rhai sy'n aros yn y broses asesu yn hawdd, gan y gellir cyflwyno safleoedd yn ddiweddarach wrth lunio'r cynllun neu brosesau archwilio cyhoeddus os bydd yr angen yn codi.

Sylwch fod cyflwyno safleoedd yn broses agored a thryloyw, felly ni ellir trin ffurflenni cyflwyno yn gyfrinachol. Bydd yr holl ffurflenni a gyflwynir ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

3.5 Pan fydd y Cynllun yn cael ei roi ar adnau, bydd y CSP (gan gynnwys yr asesiad safle posib) a'r ACau yn cofnodi tystiolaeth yr ACLL ac yn dod i'r casgliad pam fod safleoedd wedi'u cynnwys neu eu heithrio o'r Cynllun.

4.0 Proses Asesu Safleoedd Posib

4.0.1 Ar ôl i safle posib gael ei gyflwyno, bydd proses asesu'r safle yn dechrau nodi safleoedd i'w cynnwys yn y Cynllun ac i hidlo unrhyw safleoedd amhriodol. Er nad yw'r Llawlyfr CDLI yn rhagnodi methodoleg asesu safle posib safonol, mae'n nodi y dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol ymgymryd â methodoleg asesu fesul cam sy'n cynnwys hidlo safleoedd amhriodol yn gychwynnol ac asesiad safle manwl o'r safleoedd sy'n weddill.

4.1 Hidlo Safleoedd Cychwynnol

4.1.1 Bydd safleoedd a gynigir i'w datblygu (e.e. tai, cyflogaeth ac ati) i gyd yn destun asesiad cychwynnol hidlo'r safle. Os caiff safleoedd eu cyflwyno i'w diogelu, bydd y rhain yn destun asesiad ar wahân fel y bo'n berthnasol, er enghraifft drwy gael eu hystyried fel rhan o'r asesiad seilwaith gwyrdd.

4.1.2 Bydd yr hidlydd safle cychwynnol yn cynnwys asesiad desg lefel uchel a fydd yn nodi a diystyru safleoedd anaddas yn gynnar yn y broses.

4.1.3 Ni fydd unrhyw safleoedd y nodir eu bod yn gwbl afrealistig i'w datblygu, nad ydynt yn cydymffurfio â pholisi rhyngwladol, cenedlaethol neu fabwysiedig lleol neu sydd â chyfyngiadau sylfaenol na ellir eu goresgyn na'u lliniaru yn cael eu symud ymlaen i'r cam nesaf. Fodd bynnag, gellir cyflwyno'r safleoedd hyn fel Safle Amgen yn y Cyfnod Adnau os gall y cynigydd brofi sut mae'r rheswm (rhesymau) gwreiddiol dros beidio â chynnwys wedi'i goresgyn.

4.1.4 Mae'r tabl isod yn dangos yr Ystyriaethau Hidlo Safle Cychwynnol:

Ystyriaeth	Esboniad
Trothwy'r Safle	<p>Ni fydd safleoedd a gynigir i ddibenion preswyl sy'n is na'r trothwy isaf o 0.2 ha (neu 5 annedd) yn cael eu dynodi.</p> <p>Fodd bynnag, bydd y safleoedd hyn yn cael eu hystyried fel safleoedd ar hap (os bydd angen) pan fydd yr Awdurdod Cynllunio yn ymgymryd â gwaith i ddiffinio ffiniau datblygu.</p>
Perthynas â'r Anheddiad Presennol	<p>A yw'r safle o fewn, ar ymyl, neu y tu allan i anheddiad (fel y'i diffinnir yn y CDLI ar y Cyd presennol)?</p> <p>Os yw'r safle'n cael ei gynnig ar gyfer defnydd tai, cyflogaeth neu fanwerthu a'i fod y tu allan i anheddiad neu nad yw'n perthyn yn agos iddo, mae'n annhebygol iawn o symud ymlaen oherwydd byddai'n groes i bolisi cynllunio cenedlaethol h.y. datblygiad anghynaliadwy yng nghefn gwlad agored.</p> <p>Dalier sylw fod rhai defnyddiau y gellir eu hystyried yn dderbyniol i'w datblygu yng nghefn gwlad agored (e.e. ynni adnewyddadwy, twristiaeth ac ati), ni fydd y rhain yn cael eu heithrio ar sail y berthynas ag anheddiad presennol.</p>
Perygl Llifogydd	<p>Roedd disgwyl i ddiweddariad NCT 15 (2004) gael ei fabwysiadu yn 2023. Fodd bynnag, mae datganiad</p>

	<p>ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd (dyddiedig 12 Mai 2023) wedi nodi na ddisgwylir i'r</p> <p>NCT 15 newydd gael ei fabwysiadu tan y gwanwyn/haf 2024.</p> <p>Bydd safleoedd sydd wedi'u lleoli yn y parthau llifogydd canlynol nad ydynt yn bodloni'r profion cyfiawnhad a derbynioldeb meini prawf canlyniadau (o ran bregusrwydd defnyddiau a thir a ddatblygwyd yn flaenorol) yn cael eu hidlo allan.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodyn Cyngor Technegol NCT 15 (2004): Parthau C1 a C2 fel y nodir ar y Mapiau Cyngor Datblygu (DAM). <p>Neu,</p> <ul style="list-style-type: none"> • NCT 15 datblygol: Parthau 2 neu 3 (gan gynnwys mewn Ardaloedd Amddiffynedig) fel y'u diffinnir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP) pan gaiff y NCT hwn ei fabwysiadu.
Materion Cyflawni	<p>Rhoddir ystyriaeth i gyflawni safleoedd, er enghraifft, drwy bresenoldeb cyfyngiadau safle ffisegol mawr, hanes cynllunio (e.e. gwrthod), cyfyngiadau cyfreithiol neu gyfamodau sy'n cyfyngu ar y safle yn cael ei gyflwyno yng nghyfnod CDLL Gwynedd.</p> <p>Bydd cynigion sydd wedi'u lleoli yn nalgylch Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol sy'n sensitif i ffosffad yn cael eu hidlo oni bai y gallant ddangos eu bod yn gallu cyflawni niwtraliaeth ffosffad neu welliant, yn unol â'r canllawiau diweddaraf gan CNC.</p>

4.2 Asesiad Safle Manwl

- 4.2.1 Yn dilyn yr asesiad cychwynnol, bydd asesiad safle manylach yn cael ei gynnal ar gyfer pob safle sydd wedi bwrw ymlaen yn dilyn y broses hidlo gychwynnol. Bydd yr asesiad manwl, a fydd yn cynnwys asesu'r safleoedd yn erbyn amcanion SA y CDLL, yn cael ei gynnal yn dilyn yr ymgynghoriad strategaeth a ffafir.
- 4.2.2 Mae'r meini prawf asesu yn adlewyrchu'r wybodaeth y gofynnir amdani ar y Ffurflen Safle Posib, a thrwy hynny alluogi cynigwyr safle i nodi a yw un neu fwy o gyfyngiadau/dynodiadau yn effeithio ar safle. Mae'n ofynnol i gynigwyr y safle ddarparu gwybodaeth ategol sy'n egluro sut y gall y safle fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â'r safle. Gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol ofyn am wybodaeth ychwanegol gan gynigwyr safle lle bo angen.
- 4.2.3 Bydd y wybodaeth a ddarperir gan gynigydd pob safle yn cael ei gwirio gan y tîm polisi cynllunio, mewn ymgynghoriad â meysydd gwasanaeth eraill y Cyngor a, lle bo angen, sefydliadau allanol (megis: CNC, GAPS, darparwyr seilwaith ac ati). Gellir dod o hyd i gopi o

ffurflen Asesu Safle y Swyddog yn Atodiad 1 a'r Canllaw Asesu Safleoedd Posib yn Atodiad 2.

4.2.4 Yn dilyn yr asesiad cychwynnol, bydd asesiad manwl safle-benodol yn cael ei gynnal ar gyfer safleoedd sydd wedi hidlo'n llwyddiannus drwy asesiad cychwynnol. Rhennir yr asesiad yn y meysydd canlynol:-

- **Materion Amgylcheddol** – ystyried p'un a yw'r safle mewn perygl o orlifo, a fyddai peth o'r tir amaethyddol gorau a'r mwyaf amlbwrpas yn cael ei gollu, a yw'r safle yn safle tir glas neu dir llwyd, a oes unrhyw risg o dir wedi'i halogi, a yw'r safle wedi'i warchod gan ddynodiadau amgylcheddol, a ystyrir bod gwerth amgylcheddol i'r safle, a fyddai'r bwriad yn agored i effeithiau newid hinsawdd, yn cynnwys problemau llifogydd neu ddraenio, a fyddai modd i'r datblygiad ymgorffori ffynonellau ynni adnewyddadwy neu fesurau cadwraeth ynni.
- **Hygyrchedd** – ystyried addasrwydd y fynedfa gerbydol i'r safle, lleoliad y safle o ran llwybrau cludiant cyhoeddus a hygyrchedd ar droed neu ar feic at amrediad o gyfleusterau cymunedol.
- **Cyd-destun a Chymeriad y Safle** – a fydd nodweddion topograffi'r safle yn creu rhwystr i'r datblygiad, a fydd y datblygiad yn effeithio ar olygfeydd, a yw'r safle yn agos at seilwaith presennol, arfarniad o gymeriad y dirwedd gan ddefnyddio cronfa ddata LANDMAP CCGC a p'un a fyddai effaith andwyol bosib yn sgil defnydd tir cyfagos.
- **Perthynas ag Aneiddiadau Presennol** – a fyddai datblygu'r safle yn gyson a chaeedig o ran defnyddiau tir cyfagos.
- **Hyfywedd** - Mae hyfywedd yn ystyriaeth allweddol yn y broses asesu Safleoedd Posib, ochr yn ochr ag ystyriaethau cynaliadwyedd a sicrhau bod safle yn gallu cael ei gyflawni. Dylai safleoedd posib fod yn gynaliadwy, gellir ei gyflawni ac yn ariannol hyfyw er mwyn cael eu hystyried ar gyfer eu cynnwys yn y cynllun. Mae llawlyfr y Cynllun Datblygu yn nodi bod yn rhaid i bob cynnig datblygu ar gyfer defnydd tai neu gyflogaeth gynnwys Asesiad Hyfywedd.

4.2.5 Bydd rhannau o'r asesiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i adrannau mewnol Cyngor Gwynedd fel priffyrdd, yn ogystal ag ymgylgoreion statudol allanol lle bo hynny'n briodol, ddarparu gwybodaeth ychwanegol.

4.2.6 Gan nad yw Dewisiadau Strategol y CDLL a'r Strategaeth a Ffafirir wedi'u cwblhau, nid yw'n bosibl rhoi manylion amdanynt yn y ddogfen ymgynghori hon. Fodd bynnag, cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar yr amcanion a'r Strategaeth a Ffafirir er mwyn rhoi cyfle i ymgylgoreion statudol, rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd fod yn rhan o lunio'r amcanion strategol, asesu opsiynau a llunio'r Strategaeth a Ffafirir.

4.3 Arfarniad Cynaliadwyedd

4.3.1 Mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ofyniad statudol i gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) o CDLL Gwynedd. Nid yw Adroddiad Cwmpasu SA y CDLL wedi'i gomisiynu eto a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei chyhoeddi cyn yr asesiad manwl unwaith y bydd Adroddiad Cwmpasu'r SA wedi'i gwblhau.

4.3.2 Bydd y Safleoedd Posib yn cael eu hasesu yn erbyn fframwaith AC isod i nodi cymwysterau cynaliadwyedd y safleoedd posib. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn atodiad 2.

ALLWEDD ARFARNU CYNALIADWYEDD

Gwyrdd	Positif - Dim cyfyngiadau i ddatblygiad.
Ambr	Ambr - Cyfyngiadau wedi'u hadnabod yn gofyn am ymyrraeth lliniaru/polisi. Angen ystyriaeth bellach.
Coch	Negyddol - Cyfyngiadau mawr i ddatblygu neu'n groes i bolisi cenedlaethol neu'r strategaeth y cynllun.
Llwyd	Ddim yn berthnasol neu ddim digon o wybodaeth (ond nid yw'n gweithredu i eithrio'r Safle Posib o'r broses).

4.4 Hyfywedd Safle

- 4.4.1 Mae hyfywedd yn ystyriaeth allweddol yn y broses asesu Safle Posib, ochr yn ochr ag ystyriaethau cynaliadwyedd a chyflawni. Dylai safleoedd posib fod yn gynaliadwy, yn gyflawnadwy ac yn ariannol hyfyw er mwyn cael eu hystyried i'w cynnwys yn y cynllun. Mae llawlyfr y Cynllun Datblygu yn nodi bod yn rhaid i bob cynnig datblygu ar gyfer defnydd tai neu gyflogaeth fod ag Asesiad Hyfywedd.
- 4.4.2 Nid oes angen asesiad hyfywedd ar gynigion ar gyfer diogelu safleoedd (e.e. isadeiledd gwyrdd) (mae'r safleoedd hyn yn cael eu trin ar wahân gweler paragraff 4.1.1).
- 4.4.3 Bydd angen gwybodaeth hyfywedd ariannol yn ystod proses asesu'r safle a gallai methiant i gyflwyno gwybodaeth hyfywedd pan ofynnir arwain at y safle arfaethedig yn peidio â symud ymlaen. Mae'r ACLL yn bwriadu i Fodel Dichonoldeb Datblygu (DVM) a ddatblygwyd yn genedlaethol gael ei ddefnyddio gan hyrwyddwyr safle i asesu hyfywedd Safleoedd Posib a gyflwynir ar gyfer tai. Bydd y DVM ar gael ar gyfer pob safle sydd wedi cyrraedd y cam asesu manwl.
- 4.4.4 Bydd canllawiau pellach ynghylch y DVM yn cael eu cyhoeddi cyn y cam asesu manwl yn dilyn yr ymgynghoriad ar y strategaeth a ffafrir.

5.0 Cam Dewis Safle Terfynol, Ymgynghoriad CDLI wedi ei Adneuo a Safleoedd Amgen

- 5.1 Bydd y cam asesu safle manwl yn cael ei ddefnyddio i hidlo Safleoedd Posib nad ydynt yn gallu dangos cynaliadwyedd, cyflawniad a hyfywedd. Bydd y safleoedd sy'n cael eu gadael yn y broses yn cael eu hystyried yn ofalus i benderfynu pa rai sydd fwyaf addas i fod yn ddynodiadau CDLI Gwynedd. Bydd ymgysylltu helaeth ag ymgynghoreion statudol drwy gydol y broses asesu Safleoedd Posib a bydd ymgynghoriad â'r cyhoedd a phartion/sefydliadau perthnasol eraill yn cael ei gynnal yn ystod ymgynghoriad y CDLI Adneuo.
- 5.2 Lle mae nifer o safleoedd cynaliadwy, y gellir eu cyflawni ac sy'n hyfyw i ddewis ohonynt mewn anheddiad, rhoddir ystyriaeth hefyd i sylwadau a wneir ar y Gofrestr Safleoedd Posib (a luniwyd ar adeg yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafir CDLI Gwynedd), mewn rhai achosion efallai y gofynnir am adborth pellach gan rhanddeiliaid.
- 5.3 **Safleoedd Amgen:** Darperir cyfiawnhad ynghylch pam fod safle wedi ei ddiystyru a heb ei gynnwys yn y CDLI Adneuo. Os oes modd goresgyn y rheswm pam na chynhwyswyd safle, neu os oes modd cynnig lleoliadau amgen, gellir ailgyflwyno'r rhain fel Safleoedd Amgen yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y CDLI Adneuo. Arolygydd Cynllunio annibynnol fydd â'r penderfyniad terfynol ynglŷn â pha safleoedd fydd yn cael eu cynnwys yn y CDLI ac nid yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Atodiad 1 – Ffurflen Asesu Safle Posib

Ffurflen Asesu Safleoedd Posib

1) MANYLION Y SAFLE

Cyfeirnod y Safle:	
Enw'r Safle:	
Defnydd Arfaethedig y Safle:	
Cyfanswm Arwynebedd (ha):	
<ul style="list-style-type: none"> • Tir Llwyd (ha): • Tir Glas (ha): 	
Cydymffurfiaeth â'r Hoff Strategaeth (Maint, Lleoliad, Defnydd Arfaethedig):	
Aseswyd gan:	
Dyddiad yr Ymweliad Safle (os oes angen ymweliad):	
Lleoliad ffotograffau (os oes rhai):	

2) FFILTRO CYCHWYNNOL

		Rheswm / Cyfiawnhad
A yw'r safle wedi'i leoli mewn tref / dinas, pentref neu glwstwr gwledig, neu'n gyfagos i leoliadau o'r fath?	Ydy <input type="checkbox"/> Nac ydy <input type="checkbox"/>	Os nac ydy, nid yw'r safle yn cydymffurfio â pholisi cynllunio cenedlaethol (PCC 4.6.8) na'r Strategaeth a Ffafirir. Ni fydd safleoedd sydd wedi'u lleoli yng nghefn gwlad agored ac i ffwrdd o aneddiadau presennol yn cael eu dwyn ymlaen i Gam 3 (Aseiad Manwl).
A yw'r safle'n mesur dros 0.2 hectar?	Ydy <input type="checkbox"/> Nac ydy <input type="checkbox"/>	Os nac ydy, fe gaiff ei ystyried fel safle a ddaw ar gael yn annisgwyl / safle mewn lenwi pan fydd yr UPCC yn gwneud gwaith i ddiffinio'r ffiniau datblygu ond ni fydd y safle'n cael ei ddwyn ymlaen i Gam 3.

A fyddai datblygiadau ar y safle yn agored yn gyfan gwbl neu'n rhannol i lifogydd afonol / llanw?	Byddant <input type="checkbox"/> Na fyddant <input type="checkbox"/> Yn rhannol <input type="checkbox"/>	Os byddant, a bod y cynnig yn un am ddatblygiad hynod fregus fel y diffinnir yn NCT 15, ni fyddai datblygiadau ar y safle yn cydymffurfio â pholisi cynllunio cenedlaethol ac felly ni fyddai'r safle'n cael ei ddwyn ymlaen i Gam 3.
A yw'r safle o fewn neu yng nghyffiniau unrhyw un o'r canlynol <ul style="list-style-type: none"> • Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) • Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) • Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) • Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) 	Ydy <input type="checkbox"/> Nac ydy <input type="checkbox"/>	Os ydy, ni ddygir y safleoedd ymlaen i'r cam nesaf (oni bai y darperir gwybodaeth ddigonol i wrthbrofi hynny). Os gall y cynigydd, yn hwyrach ymlaen yn y broses, brofi y gellir lliniaru'r effaith, gellir ailgyflwyno'r safle fel safle amgen yn ystod yr ymgynghoriad ar y CDLL ar y Cyd Adneuo.

3) ASESIAID MANWL

ALLWEDD ARFARNIAD CYNALIADWYEDD ¹	
Gwyrdd	Positif – Dim cyfyngiad i ddatblygu.
Ambr	Melyngoch – Cyfyngiadau wedi'i hadnabod sydd angen ymyrraeth lliniarol/polisi. Angen ystyriaeth bellach.
Coch	Negatif – Cyfyngiadau mawr i ddatblygiad neu yn groes i bolisi cenedlaethol.
Llwyd	Ddim yn berthnasol neu dim digon o wybodaeth (ond nid yw'n gweithredu i eithrio o'r broses Safleoedd Posib).

	Mater	Manylion / Sylwadau	Addasrwydd y safle				Amcan SA Perthnasol
Perthynas â'r Anheddiad Presennol							
1	A yw'r safle wedi'i leoli o fewn ffurf adeiledig anheddiad neu a yw'n dalgrynnu neu'n estyniad bychan i anheddiad?		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Perchnogaeth Tir							
2	A yw'r safle a'i fynediad arfaethedig, o fewn perchnogaeth lwyr cynigydd y safle?		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Statws a Hanes Cynllunio							

¹ Cyfeiriwch at y Nodyn Canllaw Asesiad Manwl o'r Safleoedd Posib

Mater		Manylion / Sylwadau	Addasrwydd y safle				Amcan SA Perthnasol
			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
3	A oes gan y safle ganiatâd cynllunio cyfredol neu flaenorol?		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Amgylcheddol							
4	A oes risg o lifogydd?		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
5	A yw'r safle wedi'i leoli o fewn dalgylch afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i ffosfforws?		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
6	A fyddai datblygu'r safle yn arwain at golli'r tir amaethyddol gorau a'r mwyaf amlbwrpas (Graddau 1, 2 a 3a)?		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
7	A yw'r safle (neu rannau ohono) wedi'i warchod gan ddyodiadau tirwedd, ecolegol neu ddiwylliannol?		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
8	A fyddai datblygu'r safle yn arwain at golli cynefin, rhywogaethau â blaenoriaeth pwysig neu'n arwain at ddarnio coridorau gwyrdd?		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
9	A yw'r safle wedi'i leoli o fewn Ardal Diogelu Mwynau neu Byffer?		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
10	A yw'r safle'n gyfystyr â Thir Llwyd?		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
11	A oes unrhyw werth mwynder i'r safle fel man agored neu ofod hamdden o bwys?		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
12	A yw'r defnydd cyfredol a wneir o'r safle, neu unrhyw ddefnydd a wnaed ohono yn y gorffennol, yn awgrymu y gall y tir fod wedi'i halogi?		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
13	Arfarniad LANDMAP: <ul style="list-style-type: none"> Gweledol a Synhwyrdd: Daearegol: Cynefinoedd y Dirwedd: Hanesyddol: Diwylliannol: 		<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>	
Hygyrchedd a Hwylustod Symud							
14	A yw'r safle wedi'i leoli o fewn pellter cerdded i orsaf cludiant cyhoeddus / safle bws? (Nodwch y pellter o'r safle a p'un a ydyw'n llwybr serth / wedi'i rwystro)		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	

Mater		Manylion / Sylwadau	Addasrwydd y safle				Amcan SA Perthnasol
			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
15	Pa mor bell yw'r safle o lwybr cerdded/beicio hamdden presennol?		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
16	A yw'r safle'n hygyrch o briffordd gyhoeddus?		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
17	A yw'r system priffyrdd (gan gynnwys cyffyrdd) o ansawdd digonol i ddelio â datblygiad posib ar y safle?		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
18	<p>Nodwch bellter y safle at y gwasanaeth / cyfleuster cymunedol agosaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Swyddfa'r Post • Siop Gyfleus • Ysgol Gynradd neu Uwchradd • Archfarchnad • Meddygfa • Fferyllfa • Deintydd • Maes Chwarae • Arall (nodwch os gwelwch yn dda) 		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
19	<p>Nodwch bellter y safle at y cysylltiad gwasanaethau agosaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trydan • Nwy • Dŵr • Carthffosiaeth • Telathrebu 		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Cyd-destun a Chymeriad y Safle							
20	A yw nodweddion topograffi'r safle yn creu rhwystr i unrhyw waith datblygu?		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
21	A fyddai datblygiad ar y safle yn cael effaith andwyol ar olygfeydd pwysig?		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
22	A fyddai datblygu'r safle yn cael effaith andwyol ar gymeriad yr anheddiad?		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	

Mater		Manylion / Sylwadau	Addasrwydd y safle				Amcan SA Perthnasol
			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
23	A fyddai unrhyw effaith andwyol (sŵn, aer, arogl, llwch neu olau) yn codi yn sgil defnyddiau tir a allai wrthdaro?		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Casgliadau ac Argymhellion							
24	Sylwadau Ychwanegol ac Argymhelliad						

Atodiad 2 - Canllawiau Asesu Manwl Safleoedd Posib

ALLWEDD ARFARNU CYNALIADWYEDD	
Gwyrdd	Positif - Dim cyfyngiadau i ddatblygiad.
Ambr	Ambr - Cyfyngiadau wedi'u hadnabod yn gofyn am ymyrraeth lliniaru/polisi. Angen ystyriaeth bellach.
Coch	Negyddol - Cyfyngiadau mawr i ddatblygu neu'n groes i bolisi cenedlaethol neu'r strategaeth y cynllun.
Llwyd	Ddim yn berthnasol neu ddim digon o wybodaeth (ond nid yw'n gweithredu i eithrio'r Safle Posib o'r broses).

Meini Prawf Asesu Manwl		Gwyrdd	Ambr	Coch	Llwyd	Sylwadau
1	A yw'r safle wedi'i leoli o fewn ffurf adeiledig anheddiad neu a ydyw'n arwain at gwblhau neu ymestyn rhywfaint ar yr anheddiad?	Mae'r safle o fewn, neu byddai'n llunio estyniad rhesymegol i, anheddiad sy'n cael ei hadnabod fel un addas ar gyfer safleoedd tai neu gyflogaeth ar raddfa fawr.	<p>Tai: Mae'r safle o fewn neu'n gyfagos i anheddiad sydd heb ei hadnabod ar gyfer safleoedd tai mawr.</p> <p>Cyflogaeth: Nid yw'r safle o fewn neu'n gyfagos i anheddiad, ond mae tystiolaeth wedi'i gyflwyno i ddangos sut mae'r safle'n cwrdd â'r profion cyfiawnhad sydd wedi'u nodi yn TAN 23.</p>	<p>Tai: Mae'r safle wedi'i leoli mewn anheddiad haen isel sydd heb ffin datblygu neu yn y cefn gwlad agored.</p> <p>Cyflogaeth: Mae'r safle wedi'i leoli mewn anheddiad haen isel sydd heb ffin datblygu neu yn y cefn gwlad agored a sydd ddim yn cwrdd â'r profion cyfiawnhad sydd wedi'u nodi yn TAN 23.</p>	Nid yw'r defnydd arfaethedig yn gofyn am leoliad trefol.	<ul style="list-style-type: none"> Yn seiliedig ar ffiniau datblygu'r CDLL ar y Cyd. Mae aneddiadau uwch yn darparu'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer twf. Mae safle tai mawr yn cael ei ddiffinio fel pum annedd neu fwy.
2	A yw'r safle a'i fynediad arfaethedig, yn gyfan gwbl ym mherchnogaeth cynigydd y safle? Os nad ydyw, a yw'r holl	Mae tystiolaeth yn dangos bod y safle yn gyfan gwbl ym mherchnogaeth y cynigydd neu sawl	Mae tystiolaeth yn dangos bod y safle mewn sawl perchnogaeth ac nid oes unrhyw	Perchennog anhysbys a dim cytundeb wedi'i dystiolaethu		<ul style="list-style-type: none"> Cyfeiriwch at y Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Posib

Meini Prawf Asesu Manwl		Gwyrdd	Ambr	Coch	Llwyd	Sylwadau
	dirfeddianwyr yn cefnogi datblygu'r tir?	perchnogaeth sy'n cefnogi egwyddor y datblygiad. Neu, mae'r tir mewn perchnogaeth gyhoeddus.	gytundeb wedi'i dystiolaethu ar yr egwyddor o ddatblygu'r safle.	ynghylch yr egwyddor o ddatblygu'r safle.		
3	A oes gan y safle ganiatâd cynllunio cyfredol neu flaenorol?	Caniatâd cynllunio presennol	Caniatâd cynllunio sydd wedi dod i ben wedi'i gael yn ystod dyddiad sylfaen y CDLL ar y Cyd.	Caniatâd cynllunio wedi'i wrthod a'r rheswm/ rhesymau gwrthod yn dal i fodoli.	Dim caniatâd cynllunio	<ul style="list-style-type: none"> System Cynllunio Idox
4	A oes risg o lifogydd?	Safle ddim yn ardal sydd wedi'i hadnabod fel un mewn perygl o lifogydd afonydd neu arfordirol yn y FMfP.	Datblygiad hynod fregus: mewn Ardal wedi'i Hamddiffyn ac/neu Parth 2, ar pdl ac wedi'i gefnogi gan Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol ac mae'n dderbyniol yn unol â'r meini prawf sydd wedi'u cynnwys yn adran 11 TAN 15. Datblygiad llai bregus: o fewn Parth 3 neu Parth 2 (yn cynnwys	Safle ar gyfer datblygiad hynod fregus o fewn Parth 3, neu mewn Ardal wedi'i Hamddiffyn neu Parth 2, ar dir glas.		<ul style="list-style-type: none"> Yn seiliedig ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP) TAN 15 (2021) Ymgynghoriad â CNC

Meini Prawf Asesu Manwl		Gwyrdd	Ambr	Coch	Llwyd	Sylwadau
			Ardal wedi'i Hamddiffyn), ar pdl ac wedi'i gefnogi gan Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol ac yn dderbyniol yn unol â'r meini prawf sydd wedi'u cynnwys yn adran 11 TAN 15.			
5	A yw'r safle wedi'i leoli mewn Dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonol Sensitif i Ffosffad?	Safle heb ei leoli mewn dalgylch ACA	Safle wedi'i leoli yn nalgylch yr ACA ac mae wedi dangos bod modd i'r datblygiad gyflawni niwtraliaeth ffosffad neu welliant.	Safle wedi'i leoli yn nalgylch yr ACA ac nid yw wedi dangos bod modd i'r datblygiad gyflawni niwtraliaeth ffosffad neu welliant.		<ul style="list-style-type: none"> Bydd cynigion sydd wedi'u lleoli yn nalgylch yr ACA Afonol sensitif i ffosffad yn cael eu gwaredu o'r broses oni bai eu bod yn gallu dangos bod modd iddynt gyflawni niwtraliaeth ffosffad neu welliant, yn unol â'r canllawiau diweddaraf gan CNC.
6	A fyddai datblygu'r safle yn arwain at gollir tir amaethyddol gorau a'r mwyaf amlbwrpas (Graddau 1, 2 a 3a)?	Heb ei adnabod fel graddfeydd 1, 2 a 3a, na thir amaethyddol	Mae cyfran fach (llai na 50%) o'r safle yn BMVL.	Rhan fwyaf (dros 50%) o'r safle yn BMVL		<ul style="list-style-type: none"> Yn seiliedig ar y Map Dosbarthiad Amaethyddol. Efallai y bydd angen ymgynghori ag Is-adran Amaeth Llywodraeth Cymru
7	A yw'r safle (neu rannau ohono) wedi'i warchod gan ddynodiadau tirwedd, ecolegol, daearegol neu ddiwylliannol?	Dim dynodiad neu ddim effeithiau andwyol ar ddynodiadau	Safle yn syrthio o fewn cyfran fechan o'r dynodiad a gellir lliniaru unrhyw effeithiau posib.	Mwyafrif y safle yn syrthio o fewn y dynodiad ac nid oes modd lliniaru unrhyw effeithiau neu mae cost y		<ul style="list-style-type: none"> Yn seiliedig ar y wybodaeth bresennol sydd yn y CDLI ar y Cyd a gwefan CNC. Ymgynghoriad â CNC Ymgynghori â'r Adain Bioamrywiaeth

Meini Prawf Asesu Manwl		Gwyrdd	Ambr	Coch	Llwyd	Sylwadau
				lliniaru yn cyfyngu ar gyflawnad-wydd a hyfywedd y datblygiad.		
8	A fyddai datblygu'r safle yn arwain at gollu cynefin pwysig, rhywogaethau blaenoriaeth, coed a chloddiau neu'n arwain at ddarnio coridor gwyrdd?	Dim colli cynefin pwysig nac effeithiau andwyol ar rywogaethau a warchodir. Dim darnio coridor gwyrdd. Cyfleoedd i wella.	Cyfran fach o'r safle yn cynnwys cynefin pwysig. Gall rhywogaethau â blaenoriaeth fod yn bresennol. Gellid lliniaru darnio coridor gwyrdd.	Mae mwyafrif y safle yn cynnwys cynefin pwysig. Tystiolaeth o rywogaethau â blaenoriaeth ar y safle. Ni ellid lliniaru darnio coridor gwyrdd.		<ul style="list-style-type: none"> • Ymgynghori â'r Adain Bioamrywiaeth • Cyfresi data GIS - Gorchmynion Diogelu Coed (TPO), Safleoedd Bywyd Gwylt
9	A yw'r safle wedi'i leoli mewn Ardal Diogelu Mwynau neu Barth Clustogi?	Nid yw'r safle mewn ardal diogelu mwynau nac mewn parth clustogi.	Safle mewn parth diogelu mwynau neu barth clustogi ond ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn sterileiddio'r adnodd mwynau sydd wedi'i ddiogelu.	Mae'r safle mewn ardal diogelu mwynau neu barth clustogi a byddai'n arwain at sterileiddio'r adnodd mwynau yn ddi-angen.		<ul style="list-style-type: none"> • Ymgynghori â Gwasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru • MTAN1
10	A yw'r safle'n gyfystyr â Thir Llwyd?	Mae'r safle yn gyfan gwbl neu'n rhannol dir llwyd o fewn neu'n gyfagos i anheddiad presennol.	Tai: Mae'r safle yn dir glas o fewn neu'n gyfagos i anheddiad presennol. Defnydd Dibreswyl: Tir llwyd	Tai: Mae'r safle yn safle tir glas neu llwyd yn y cefn gwlad agored.		<ul style="list-style-type: none"> • Ymgynghori â'r Adain Bioamrywiaeth

Meini Prawf Asesu Manwl		Gwyrdd	Ambr	Coch	Llwyd	Sylwadau
			yn y cefn gwlad.			
11	A oes gan y safle unrhyw werth mwynderol fel gofod agored neu bwysigrwydd hamdden?	Nid oes gan y safle werth hamdden na gwerth fel man agored	Mae gan ran o'r safle werth mwynderol neu bwysigrwydd hamdden ond ni fyddai'r datblygiad yn effeithio ar y gwerth mwynderol cyffredinol neu'r adnodd hamdden	Mae gan fwyafrif y safle werth mwynderol neu bwysigrwydd hamdden, neu mae gan ran o'r safle werth mwynderol neu bwysigrwydd hamdden a fyddai'r datblygiad yn effeithio ar y gwerth mwynderol cyffredinol neu'r adnodd hamdden		<ul style="list-style-type: none"> Yn seiliedig ar wybodaeth bresennol yn y CDLL ar y Cyd
12	A yw'r defnydd cyfredol/blaenorol o'r safle yn awgrymu bod perygl posibl o dir halogedig?	Nid yw'r defnydd cyfredol/blaenorol yn awgrymu bod y tir yn halogedig	Nid yw'r defnydd cyfredol/blaenorol yn awgrymu bod posibilrwydd bod y tir yn halogedig.	Hysbys bod y tir yn halogedig		<ul style="list-style-type: none"> Ymgynghori gyda'r Swyddog Tir Halogedig
13	Arfarniad LANDMAP: <ul style="list-style-type: none"> Gweledol a Synhwyrdd: Daearegol: Cynefinoedd y Dirwedd: Hanesyddol: Diwylliannol: 	Isel/Cymedrol	Uchel / Rhagorol	-		<ul style="list-style-type: none"> Yn seiliedig ar gronfa ddata CNC LANDMAP
14	A yw'r safle wedi'i leoli o fewn pellter cerdded i orsaf cludiant cyhoeddus / safle bws? (Nodwch y pellter o'r	Mae'r safle yn hygyrch o fewn 800m (tua pellter cerdded o 10 munud) i derfynfa	Mae'r safle yn hygyrch o fewn 1200m (tua Pellter cerdded o 15	Safle ymhellach na 1200m i derfynfa cludiant cyhoeddus, neu,		<ul style="list-style-type: none"> Pellter i'r orsaf bws ac/neu orsaf drenau agosaf ar hyd llwybrau troed a ffyrdd ac nid fel yr hed y frân.

Meini Prawf Asesu Manwl		Gwyrdd	Ambr	Coch	Llwyd	Sylwadau
	safle a p'un a ydyw'n llwybr serth / wedi'i rwystro)	cludiant cyhoeddus	munud) i derfynfa cludiant cyhoeddus.	yn sgil y pellter cerdded i derfynfa cludiant cyhoeddus mae'n bur debygol y byddai'r safle yn dibynnu ar gludiant cerbyd preifat i gael mynediad at wasanaethau.		<ul style="list-style-type: none"> Yn seiliedig ar ganllawiau gan yn Institute of Highways and Transportation (IHT)
15	Pa mor bell yw'r safle o lwybr cerdded/beicio hamdden presennol?	Mae'r safle yn hygyrch i opsiynau teithio cynaliadwy ac yn darparu cysylltiadau i lwybrau teithio presennol/ arfaethedig	Nid oes unrhyw opsiynau teithio cynaliadwy, ond gellir darparu rhai am gost.	Nid oes unrhyw lwybrau teithio cynaliadwy ac mae'r gost o'u darparu yn cyfyngu ar gyflawnadwyedd a hyfywedd y datblygiad.		<ul style="list-style-type: none"> GIS
16	A yw'r safle'n hygyrch o briffordd gyhoeddus?	Mynediad uniongyrchol i'r brif rwydwaith ffyrdd gyda lleiniau gwelededd mwy na digonol.	Mae modd goresgyn neu liniaru rhai rhwystrau	Safle wedi ei amgáu gan dir - tystiolaeth o stribed 'ransom', ar dro siarp, rhwydwaith priffyrdd gwael, gryn bellter o'r brif rwydwaith priffyrdd.		<ul style="list-style-type: none"> Ymgynghori â'r Adran Briffyrdd
17	A yw'r system briffyrdd gyfagos (yn cynnwys	System priffyrdd yn gallu ymdopi â	System briffordd is-safonol y gellid ei	System briffordd is-safonol y gellid		<ul style="list-style-type: none"> Ymgynghori â'r Adran Briffyrdd

Meini Prawf Asesu Manwl		Gwyrdd	Ambr	Coch	Llwyd	Sylwadau
	cyffyrdd) yn ddigon safonol i ymdopi â'r datblygiad posibl ar y safle?	datblygiad posib	gwella	ei gwella dim ond gyda mewnbwn economaidd mawr fyddai'n gweithredu fel cyfyngiad at gyflawnadwyedd neu hyfywedd datblygiad.		
18	<p>Nodwch bellter y safle at y gwasanaeth / cyfleuster cymunedol agosaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Swyddfa'r Post • Siop Gyfleus • Ysgol Gynradd neu Uwchradd • Archfarchnad • Meddygfa • Fferyllfa • Deintydd • Maes Chwarae • Arall (nodwch) 	Mae'r safle yn hygyrch o fewn 800m (tua Pellter cerdded o 10 munud) i nifer o gyfleusterau	Mae'r safle yn hygyrch o fewn 1200m (tua Pellter cerdded o 15 munud) i nifer o gyfleusterau	Safle ymhellach na 1200m i derfynfa cludiant cyhoeddus, neu, yn sgil y pellter cerdded i derfynfa cludiant cyhoeddus mae'n bur debygol y byddai'r safle yn dibynnu ar gludiant cerbyd preifat i gael mynediad at wasanaethau.		<ul style="list-style-type: none"> • Pellter i'r orsaf bws ac/neu orsaf drenau agosaf ar hyd llwybrau troed a ffyrdd ac nid fel yr hed y frân. • Yn seiliedig ar ganllawiau gan yn Institute of Highways and Transportation (IHT)
19	<p>Nodwch bellter y safle at y cysylltiad gwasanaethau agosaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trydan • Nwy • Dŵr • Carthffosiaeth • Telathrebu 	Mae cysylltiadau presennol ar gael i wasanaethau neu mae tystiolaeth y gellir gwneud cysylltiadau	Gallai gwasanaethau presennol fod wedi'u cysylltu ond byddai angen gwneud gwelliannau lleol.	Mae'r gwasanaethau presennol neu arfaethedig yn cyfyngu ar gyflawnadwyedd a hyfywedd datblygiad.		

Meini Prawf Asesu Manwl		Gwyrdd	Ambr	Coch	Llwyd	Sylwadau
20	A yw nodweddion topograffi neu strwythurau ffisegol y safle yn creu rhwystr i unrhyw ddatblygiad?	Dim nodweddion topograffi na ffisegol ar y safle, neu bod strwythurau ffisegol ar y safle ddim yn creu rhwystr i unrhyw ddatblygiad	Rhai nodweddion topograffi neu strwythurau ffisegol ar y safle ond efallai bod lliniaru yn bosib i gynorthwyo datblygiad.	Nodweddion topograffi neu ddatblygiadau ffisegol ar y safle fydd yn gweithredu fel cyfyngiad ar gyflawnadwyedd neu hyfywedd datblygiad.		<ul style="list-style-type: none"> Data Cyfuchlinellau GIS Ffotograffau o'r awyr Efallai y bydd angen ymweliad safle
21	A fyddai datblygiad ar y safle yn cael effaith andwyol ar olygfeydd pwysig?	Dim effaith	Effaith fychan a allai gael ei lliniaru	Safle amlwg o bellter, effaith ar Safle Treftadaeth y Byd, Ardal Cadwraeth ac/neu Adeilad Rhestredig ac neu heneb gofrestredig.		<ul style="list-style-type: none"> Efallai y bydd angen ymweliad safle
22	A fyddai datblygu'r safle yn cael effaith andwyol ar gymeriad yr anheddiad?	Dim effaith	Mân effaith negyddol	Graddfa a math y datblygiad yn groes i gymeriad yr anheddiad.		
23	A fyddai unrhyw effaith andwyol ar fwynderau (sŵn, aer, arogleuon, llwch neu oleuni) sy'n codi o ddefnyddiau tir sydd o bosib yn gwrthdaro?	Dim defnyddiau tir cyfagos sy'n gwrthdaro	Defnyddiau cyfagos neu gerllaw a allai o bosib wrthdaro ond efallai bod modd lliniaru hyn.	Effaith andwyol ar fwynderau sy'n codi o ddefnyddiau cyfagos neu gerllaw sy'n gwrthdaro, sy'n annhebygol o gael eu lliniaru neu		

Meini Prawf Asesu Manwl		Gwyrdd	Ambr	Coch	Llwyd	Sylwadau
				byddai'r gost o liniaru yn gweithio fel cyfyngiad i gyflawnadwyedd neu hyfywedd datblygiad.		